# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Bryn Blodau**

**CARTREF PRESWYL BRYN BLODAU**
**FFESTINIOG**
**BLAENAU FFESTINIOG**
**LL41 4LW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Date_Last_Inspection_Completed_Do not_Delete

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

**Disgrifiad o'r gwasanaeth**

Cartref gofal preswyl yw Bryn Blodau sydd wedi'i leoli ym mhentref Llan Ffestiniog. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu gofal ar gyfer hyd at 41 o bobl 18 oed a throsodd. Mae hyn yn cynnwys uned gofal dementia sy'n cynnwys wyth gwely (Hafan y Bryn) a chyfleuster gofal canolraddol sy'n darparu gofal tymor byr a gwasanaeth adsefydlu. Cyngor Gwynedd yw'r darparwr cofrestredig ac Aled Davies yw'r unigolyn cyfrifol. Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Crynodeb o'n canfyddiadau**

**1. Asesiad cyffredinol**

Roedd y bobl yn hapus ac yn fodlon ar y gofal a roddir iddynt yn y cartref. Roedd y bobl yn cael budd o ddeiet amrywiol a maethol ac yn cael dewis. Roedd anghenion, dymuniadau, cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl yn cael eu hadolygu yn unol â'r amserlenni gofynnol. Dylai cofnodion o ansawdd gofal y bobl fod yn gyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth; roedd cofnodion gofal y bobl sy'n byw yn Hafan y Bryn yn fanylach ac yn fwy trefnus. Roedd y staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Roedd y gofal a ddarperir yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n effeithiol. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd cyfforddus a diogel. Fodd bynnag, mae angen gwella'r dull o oruchwylio a chynnal a chadw'r ardaloedd cymunedol gan gynnwys yr ystafelloedd ymolchi a'r ardaloedd eistedd.

**2. Gwelliannau**

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Caiff y gwelliannau eu hystyried mewn arolygiadau yn y dyfodol.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu ffeiliau gofal.
- Cynnal a chadw ardaloedd cymunedol.

1. **Llesiant**

**Ein canfyddiadau**

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd pob dydd a chaiff eu hawliau eu parchu. Gwelsom y staff gofal yn ymgynghori â'r bobl ynglŷn â'u gofal. Dywedodd un person wrthym, "*Dwi wedi dewis bod yma".* Dangosodd y cofnodion gofal fod y bobl yn cael eu hannog i fynegi eu dymuniadau a'u dewisiadau. Roedd y staff gofal yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom fod cydberthynas gadarnhaol rhwng y bobl a'r staff gofal. Roedd y tîm rheoli yn goruchwylio'r gofal a ddarperir yn effeithiol ac yn adnabod y bobl yn dda. Caiff y bobl eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu bywydau a chânt eu trin ag urddas a pharch.

Caiff llesiant corfforol ac emosiynol y bobl eu hybu. Roedd y bobl yn fodlon ac yn hapus gyda'r gofal a gânt. Roedd y staff gofal yn derbyn hyfforddiant priodol ac arbenigol, er enghraifft ar ddementia. Roedd y staff gofal yn sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael i'r bobl i'w helpu i gynnal eu hiechyd. Roedd y bobl yn cael eu hannog i gysylltu â'u ffrindiau a'u teuluoedd yn rheolaidd yn y cartref a'r tu allan i'r cartref. Roedd yr ardaloedd cymunedol wedi'u trefnu er mwyn annog y bobl i gymdeithasu a chwblhau gweithgareddau unigol neu mewn grŵp, megis gwau neu waith crefft. Dywedodd un person a oedd yn gwau wrthym, "*Dwi'n hapus braf yma" .* Mae'r bobl yn hapus ac yn cael eu hannog i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed. Roedd ffeiliau gofal y bobl yn cynnwys asesiadau risg unigol, cyfredol a phriodol. Roedd y staff gofal yn cwblhau hyfforddiant diogelu parhaus; roeddent yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd i ddiogelu pobl neu os oedd unigolyn mewn perygl o niwed. Dangosodd y cofnodion fod y rheolwyr yn cynnal trosolwg effeithiol o ddigwyddiadau a materion yn ymwneud â diogelu. Mae strategaethau ar waith er mwyn lleihau'r perygl o niwed i bobl.

Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n cefnogi eu llesiant. Gwelsom fod y llety yn olau ac yn cynnwys sawl ardal gymunedol i'r bobl eu defnyddio. Roedd cyfleoedd i'r bobl fod yn annibynnol neu gymdeithasu ag eraill. Roedd y staff gofal yn galluogi'r bobl i ddewis ble roeddent am dreulio eu hamser yn ystod y diwrnod. Gwelsom y bobl yn helpu yn y cartref, drwy baratoi diodydd neu olchi llestri. Roedd yr amgylchedd wedi'i drefnu er budd anghenion a dewisiadau'r bobl. Roedd angen adolygu'r prosesau i oruchwylio'r broses o gynnal a chadw'r amgylchedd. Gwnaethom argymell bod angen monitro'n fwy y materion yn ymwneud â chynnal a chadw yn yr ardaloedd cymunedol, megis yr ystafelloedd ymolchi a'r ardaloedd eistedd. Mae'r bobl yn byw mewn llety sy'n eu galluogi i gymryd rhan.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Caiff anghenion unigol y bobl eu hystyried ar ffurf amrywiaeth o safbwyntiau a gwybodaeth. Dywedodd dau berson y gwnaethom siarad â nhw fod rheolwr y gwasanaeth wedi ymgynghori â nhw cyn iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth; cawsant gyfle i ymweld â'r gwasanaeth. Roedd tystiolaeth o hyn yn y cofnodion gofal a bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar anghenion unigol. Gwnaethom siarad â gweithiwr proffesiynol ar ymweliad a dywedodd wrthym fod y gwasanaeth yn dda iawn am gysylltu ag ef, cyfathrebu anghenion iechyd y bobl a sicrhau ei fod yn gallu diwallu anghenion y bobl. Mae'r darparwr yn ystyried ystod eang o safbwyntiau a gwybodaeth, er mwyn cadarnhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu anghenion unigolion ac yn gallu cynorthwyo pobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae gan y bobl gynlluniau personol cyfredol. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am anghenion y bobl a'r canlyniadau roeddent am eu cyflawni. Gwelsom fod yr asesiadau risg yn briodol ac yn fanwl yn unol ag anghenion yr unigolion. Gwelsom fod anghenion gofal yn cael eu hadolygu a bod cofnodion yn cael eu haddasu yn unol â'r amserlenni gofynnol. Dywedodd tri pherson y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn rhan o'r broses o gynllunio ac adolygu eu gofal; roedd y cofnodion yn cadarnhau hyn. Gwelsom fod cynlluniau personol y bobl sy'n byw yn yr uned gofal dementia wedi'u trefnu'n well ac yn fanylach na chynlluniau'r bobl sy'n byw ym mhrif ran y gwasanaeth, sef Bryn Blodau, lle roedd angen iddynt gynnwys mwy o fanylion a chael eu trefnu'n well. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr ac awgrymu bod angen iddo adolygu'r cofnodion gofal er mwyn ceisio sicrhau bod ansawdd y cofnodion gofal yn gyson ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Er bod gan y bobl gofnodion gofal cywir sy'n dangos y ffordd y caiff eu gofal ei ddarparu i ddiwallu eu hanghenion, dylai'r darparwyr fwrw golwg dros y dulliau o gofnodi gofal er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Mae'r gwasanaeth yn ystyried anghenion a dewisiadau'r bobl. Dywedodd un person y gwnaethom siarad ag ef ei fod wedi dewis aros ym Mryn Blodau yn hytrach na symud i gartref nyrsio pan newidiodd ei anghenion gofal. Gwelsom fod trefniadau wedi'u rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol ar gael yn barhaus i alluogi'r bobl i fyw yn y gwasanaeth. Gwelsom weithiwr iechyd proffesiynol ar ymweliad yn mynd ati i ddiwallu anghenion gofal y bobl ar ddiwrnod ein hymweliad; dywedodd wrthym fod y gwasanaeth yn ystyried dymuniadau'r bobl mewn ffordd effeithiol ac yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Dywedodd person arall wrthym fod y staff gofal yn dda iawn am wrando arnynt; gwelsom un person yn trafod ei anghenion gofal â'i weithiwr allweddol (sef ei brif ofalwr). Gwelsom y staff gofal yn mynd ati i ddiwallu anghenion gofal y bobl ac roeddent yn defnyddio dull a oedd yn cyd-fynd â'u cofnodion gofal. Dangosodd y cofnodion gofal fod atgyfeiriadau amserol a pherthnasol yn cael eu gwneud at weithwyr iechyd proffesiynol yn ôl y gofyn. Caiff y gofal ei gynllunio ar sail dymuniadau ac anghenion yr unigolion.

Caiff y bobl eu cefnogi i fwyta deiet iach ac i yfed digon o hylif. Gwnaethom ymuno â phobl i ginio a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu dewis yr hyn roeddent am ei fwyta cyn pob pryd. Gwelsom y staff gofal yn trafod eu dewis o brydau o'r fwydlen gyda'r bobl. Gwelsom fod y bwydlenni'n cael eu cynllunio bob pedair wythnos. Gwelsom un person yn gofyn am bryd nad oedd ar y fwydlen a threfnwyd iddo gael y pryd hwnnw. Dangosodd y ffeiliau gofal fod anghenion unigol y bobl o ran bwyd a deiet yn cael eu hystyried. Gwelsom fod atgyfeiriadau at y gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol yn cael eu hanfon ynglŷn ag anghenion deietegol a bod asesiadau risg yn cael eu cwblhau yn ôl y gofyn.  Mae'r unigolion yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt a chaiff y risgiau i unigolion ac anghenion arbenigol eu hystyried i lywio eu hanghenion gofal.

Anogir y bobl i gymryd rhan. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallant ddewis sut roeddent am dreulio eu hamser yn y gwasanaeth. Dywedodd un person wrthym ei fod yn rhan o *"gyfarfod pwyllgor"* (cyfarfod y preswylwyr). Nod hyn oedd rhoi'r cyfle i bobl fod yn rhan o drafodaethau am unrhyw bobl a allai ymweld â'r gwasanaeth a chynllunio gweithgareddau. Gwelsom gofnodion y cyfarfod a ddangosodd fod sawl person wedi'i fynychu i drafod eu syniadau. Roedd cofnodion cyfarfod y staff yn cyfeirio at gyfarfod y preswylwyr yn ogystal â dewisiadau a syniadau'r bobl, a sut y gallent ddarparu ar eu cyfer. Gwelsom berson arall yn trafod ei gynlluniau a'i baratoadau ar gyfer mynd i ddigwyddiad, â'r staff gofal. Gwelsom fod y staff gofal yn amyneddgar, yn barchus ac yn galonogol wrth ryngweithio â'r bobl. Ysgrifennwyd y cofnodion gofal a'r cofnodion o gyfarfodydd mewn ffordd barchus a chadarnhaol. Caiff y bobl eu hannog i fynegi barn am sut mae’r gwasanaeth yn cael ei gynnal o ddydd i ddydd.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn llety sydd wedi'i gynllunio a'i drefnu i ddiwallu anghenion y bobl. Gwnaethom arolygu dwy ran y cartref; a oedd yn cynnwys prif ran y gwasanaeth a Hafan y Bryn, sef uned arbenigol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Roedd pedair ardal lolfa ym mhrif ran y gwasanaeth (Bryn Blodau) a gwelsom y bobl yn cymdeithasu ac yn cwblhau gweithgareddau yno, er enghraifft, gwau a jig-sos. Er bod y brif ardal fwyta a'r gegin wrth ymyl ei gilydd, ni allai neb heb awdurdod fynd i mewn i'r gegin. Gwelsom y bobl yn paratoi diodydd ar gyfer amseroedd prydau ac yn helpu gyda'r golch yn y gegin lai i'w helpu i gynnal rhywfaint o annibyniaeth. Gwelsom sampl o 12 o ystafelloedd gwely ym mhrif ran y gwasanaeth a thair ystafell wely yn Hafan y Bryn ac roeddent wedi'u personoli â lluniau, dillad gwely a rhywfaint o ddodrefn. Yn ogystal â hyn, roedd lluniau ac enwau'r bobl y tu allan i ddrysau eu hystafelloedd gwely er mwyn helpu'r bobl sy'n byw gyda dementia i wybod ble roeddent. Roedd Hafan y Bryn wedi'i chynllunio a'i threfnu i hyrwyddo llesiant y bobl sy'n byw gyda dementia. Roedd amrywiaeth o ardaloedd i'r bobl eu defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys cornel â thema Americanaidd, “Siop Ni” a choridor â thema glan môr a oedd yn cynnwys gwrthrychau cyffyrddol (gan gynnwys cregyn) yn hongian ar y waliau. Gwnaethom edrych ar bob ystafell ymolchi a'r ardaloedd eistedd cymunedol ym mhrif ran yr adeilad a gwelsom fod angen cwblhau gwaith cynnal a chadw arnynt ac adolygu'r systemau rheoli heintiau. Y rheswm dros hyn yw am ein bod wedi gweld rhai eitemau a oedd wedi torri gan gynnwys dalwyr papur tŷ bach ac ardaloedd lle roedd angen biniau pedal i hyrwyddo dulliau rheoli heintiau. Gwelsom hefyd fod angen glanhau neu newid rhai cadeiriau a charpedi yn yr ardaloedd cymunedol. Er bod y bobl yn byw mewn amgylchedd sydd wedi'i drefnu i hyrwyddo annibyniaeth y bobl, mae angen bwrw golwg dros y dulliau o oruchwylio'r gwaith cynnal a chadw yn yr ardaloedd cymunedol.

Mae'r darparwr gwasanaeth yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Roedd y cofnodion yn dangos bod gwiriadau iechyd a diogelwch yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol; roedd y rhain yn cynnwys yr oergell a thymheredd y bwyd. Roedd cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEPs) y bobl wedi'u personoli a'u cofnodi'n glir ac roedd yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Gwelsom fod gwiriadau diogelwch wedi'u cwblhau mewn perthynas â diogelwch tân, legionella, nwyddau trydanol a chyfarpar arbenigol. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd diogel.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Gwnaethom fwrw golwg dros y polisïau a'r gweithdrefnau ar-lein, er enghraifft y polisïau cwynion a meddyginiaeth. Roedd tystiolaeth i ddangos bod y staff wedi'u darllen. Dangosodd cofnodion y cyfarfodydd tîm a'r cofnodion goruchwylio fod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng y rheolwyr a'r staff pan oedd polisïau newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r gwasanaeth. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn dewis defnyddio'r un ardaloedd byw bob dydd. Dywedodd un person wrthym *"Fama dani'n licio bod".* Roedd aelodau penodedig o'r staff gofal yn y pedair ystafell fyw er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio fel bod anghenion gofal a llesiant y bobl yn cael eu monitro gan yr un gofalwr. Dywedodd dau ofalwr wrthym fod hyn yn gweithio'n dda gan eu bod yn gallu canolbwyntio ar anghenion unigol. Roedd y templedi o gofnodion gofal yn cynnwys nodiadau i annog y staff gofal i ddefnyddio dull cyson. Dangosodd y cofnodion hyn enghreifftiau effeithiol a manwl o gofnodi anghenion gofal yn ogystal ag achosion effeithiol o gyfathrebu rhwng y staff gofal ar ddiwedd pob sifft. Gwelsom y wybodaeth a gasglwyd gan y darparwr i adolygu datblygiad a chynnydd y gwasanaeth. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar ffurf adborth gan ffrindiau, teuluoedd, staff gofal a gweithwyr proffesiynol ar ymweliad yn ogystal â sampl o archwiliadau a gwblhawyd, gan gynnwys archwiliadau o feddyginiaeth a digwyddiadau. Gwelsom fod y cofnodion archwilio yn canolbwyntio ar yr un themâu a nodwyd ac a gofnodwyd yn yr adroddiad ar wella ansawdd, a oedd yn dangos dull gweithredu cyson. Gwelsom fod yr unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob deufis, yn unol â'r trefniadau monitro, gwella a'r amserlenni gofynnol. Mae'r darparwr yn sicrhau bod sylfaen gadarn ar gyfer darparu gofal a chymorth o ansawdd da i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth er mwyn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom edrych ar y ddogfen hon a oedd yn disgrifio'r gwasanaeth a sut y byddai'n cael ei ddarparu. Gwelsom fod y ddogfen hon yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n flynyddol neu pan oedd newidiadau'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth. Gwelsom fod y wybodaeth a gofnodwyd yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall y bobl ddisgwyl derbyn gwasanaeth a gaiff ei ddarparu yn unol â'r Datganiad o Ddiben.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod niferoedd priodol o staff ar gael, sydd â gwybodaeth a sgiliau addas i ddarparu gofal i'r bobl. Gwelsom fod y lefelau staffio yn cyd-fynd â'r rota ar ddiwrnod ein hymweliad a dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo bod digon o aelodau o'r staff ar gael bob amser. Gwnaethom edrych ar rota'r staff o fis Tachwedd 2019, a oedd yn adlewyrchu'r lefelau staffio a welsom ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau ar waith i gyflenwi pe bai aelod o'r staff yn sâl neu'n absennol. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys cofnodion a thystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff

gofal wedi derbyn lefelau a mathau priodol o hyfforddiant fel rhan o raglen hyfforddi barhaus. Dangosodd y rhaglen hyfforddi hefyd fod y staff gofal wedi derbyn hyfforddiant arbenigol, a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o ddementia. Roedd y gwasanaeth yn hwyluso hyfforddiant ar y “Daith Dementia Rithwir” (Bws Dementia) ar ddiwrnod ein hymweliad, a oedd yn galluogi'r staff gofal i weld sut beth fyddai byw gyda dementia, drwy ddefnyddio cyfarpar arbenigol a chreu amgylchedd ysgogol. Mae digon o aelodau o'r staff gofal ac maent yn cael cymorth a hyfforddiant i wella eu sgiliau i roi cymorth i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Mae gan y darparwr brosesau effeithiol ar waith i fetio a rhoi cymorth i'r staff gofal. Gwelsom fod gwiriadau fetio priodol wedi'u cynnal wrth recriwtio'r staff. Gwelsom fod pob aelod o'r staff gofal wedi cael eu harfarnu a'u goruchwylio ac edrychom ar y cynllun goruchwylio ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a ddangosodd fod y staff gofal yn cael eu goruchwylio'n ffurfiol bob chwarter, yn unol â'r rheoliadau. Edrychom ar y rhaglen sefydlu newydd ar gyfer pob aelod newydd o'r staff, sef cynllun gwaith 12 wythnos gan y darparwr (Cyngor Gwynedd) er mwyn annog y staff i fod yn gymwys ym mhob maes gofal. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u bod yn rhan o dîm. Mae'r darparwr yn sicrhau bod systemau cadarn ar waith ar gyfer recriwtio staff yn ddiogel a rhoi cymorth effeithiol i'r staff gofal.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gwblhawyd ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru a'i gymeradwyo o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom argymell y canlynol er mwyn gwella canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth;

- Bwrw golwg dros y ffeiliau gofal er mwyn sicrhau cysondeb yn ansawdd a manylder y cofnodion gofal ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

- Bwrw golwg dros y gwaith o gynnal a chadw a goruchwylio'r ardaloedd cymunedol gan gynnwys yr ystafelloedd ymolchi a'r ardaloedd eistedd.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom ymweld â'r cartref yn ddirybudd ar 22 Ionawr 2020 rhwng 9.30a.m. a 6.00p.m.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'n harolygiad:
Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol;

- Gwnaethom siarad â phedwar unigolyn a oedd yn byw yn y gwasanaeth, pedwar aelod o'r staff gofal, un gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref, y dirprwy reolwr a'r rheolwr.

- Gwnaethom fwrw golwg dros amrywiaeth eang o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar chwe ffeil gofal personol, ffeiliau pum aelod o'r staff, y rhaglen hyfforddi, yr adroddiad ar ansawdd, archwiliadau a'r cofnodion cynnal a chadw ac iechyd a diogelwch.

- Gwnaethom edrych ar 15 ystafell wely, yr holl ardaloedd byw cymunedol a'r ystafelloedd ymolchi cymunedol.

- Gwnaethom adolygu'r Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth a welsom ar waith. Mae'r Datganiad o Ddiben yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac yn dangos sut y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer y bobl y mae'n gofalu amdanynt, yn enwedig drwy lefelau staffio a hyfforddiant i'r staff.

- Gwnaethom ddefnyddio adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI), sy'n galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau'r bobl na allant gyfathrebu'n hawdd.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

**Ynglŷn â'r gwasanaeth**

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cyngor Gwynedd** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Aled Davies** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **41** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf a gynhaliwyd o dan RISCA.** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **22 Ionawr 2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y Gymraeg a'r Saesneg.** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** Insert_Report_Published_Actual_Do not_Delete